

Ysgol Gyfun Gymunedol
Penweddig

Pecyn gwybodaeth

# Swydd Pennaeth Cyfadran Saesneg & Ieithoedd Byd Eang

**Graddfa Cyflog £30,742 - £47,340**
**& Lwfans CAD 1a £10,373**

Dyddiad cau: 12 Mai 2024

# Llythyr at yr ymgeisydd

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am fynegi diddordeb yn yr hysbyseb am y swydd hon ym Mhenweddig.

Mae Penweddig yn ysgol lwyddiannus, sydd â hanes o welliant a datblygiad. Mae nifer sylweddol o'n disgyblion yn sicrhau canlyniadau TGAU a Lefel A sydd yn uwch nag ysgolion cyffelyb. Mae ymddygiad ein disgyblion yn dda iawn, ac mae ganddynt ymagwedd bositif ac ysgogol at ddysgu. Cyniga'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol. Mae Penweddig yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol.

Hyderaf bydd y pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi syniad da i chi o gyd-destun y swydd. Gellir cael mwy o wybodaeth am fywyd bob dydd yr ysgol drwy gysylltu â'r ysgol, neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae croeso i chi wneud hynny naill ai drwy ffonio'r ysgol (01970 639499), neu drwy e-bost at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12 Mai 2024.**

Bwriedir cynnal y cyfweliad yn ystod yr wythnos yn cychwyn **13 Mai 2024**

Yn gywir

Miss Rhian Morgan
Pennaeth

@Penweddig @YsgolPenweddig

# Disgrifiad Swydd

## PENNAETH CYFADRAN SAESNEG & IEITHOEDD BYD EANG

Cyflog £30,742 - £47,340) & Lwfans CAD 1a £10,373

**Cefndir**

Mae'r ysgol yn chwilio ar gyfer 1 Medi 2024 athro/athrawes brwdfrydig a chymwys i ymgymryd â swydd Pennaeth Gyfadran Saesneg a Ieithoedd Byd Eang. Mae hon yn swydd allweddol i ffyniant yr ysgol.

Dyma gyfle arbennig o gyffrous i ymuno ag ysgol lwyddiannus ac i arwain Cyfadran lewyrchus.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus sgiliau a gwybodaeth dda iawn o anghenion arweinyddiaeth ar lefel rheolaeth ganol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn brofiadol wrth addysgu Saesneg hyd at Safon Uwch.

Disgwylir i'r Pennaeth Cyfadran gydweithio'n agos gyda'r Uwch Dîm Rheol ac arwain tîm o athrawon i gyflwyno a datblygu'r Fframwaith Llythrennedd drwy'r ysgol.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus chwarae rhan weithredol i hyrwyddo nodau ac amcanion yr ysgol ac yn arbennig felly ei hymdrechion i gryfhau Cymreictod y gymuned ysgol.

**Disgwyliadau**
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cwrdd â holl ddisgwyliadau y safonau cenedlaethol ar gyfer athrawon wrth eu gwaith.

**Dyletswyddau**
**Yn atebol i:** Y Pennaeth drwy'r Rheolwr Llinell perthnasol

a) Bod yn atebol am safonau addysgu, dysgu a chynnydd

   disgyblion yn eich pwnc/maes yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Pennaeth a Rheolwr Llinell

b) Dal eraill yn atebol am safonau addysgu, dysgu a chynnydd disgyblion yn y Gyfadran

c) Cyfrannu at gynnal a gwella yr amgylchedd ar gyfer dysgu a hybu safonau uchel drwy:

**Arweinyddiaeth**
- Sicrhau ymrwymiad i'n gweledigaeth o greu 'Ysgol sy'n rhagori ym mhob maes';
- Bod ag agwedd gadarnhaol ac optimistaidd tuag at reoli newid;
- Ysbrydoli, cymell a dylanwadu ar gyd-weithwyr;
- Arwain drwy esiampl, cymryd cyfrifoldeb a bod yn ymwybodol o bwer ymddygiad symbolaidd;
- Cyfrannu'n gadarnhaol tuag at meddwl strategol a chynllunio; a

**Rheolaeth**
- Rheoli y pobl mae gennych gyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt gyda pharch ac ysbryd da;
- Rheol adnoddau a chyllid o fewn eich ardal o gyfrifoldeb;
- Cyfathrebu yn effeithiol;
- Monitro a gwerthuso perfformiad a chyflawni canlyniadau.

ch) Cyfrannu at ddatblygu Dysgu ac Addysgu yn unol â'r llinynnau yng Nghynllun Gwella'r Ysgol ac arwain ar agweddau a benderfynwyd arnynt gan y Pennaeth a Rheolwr Llinell.

d) Arwain a datblygu y Fframwaith Rhifedd ar draws yr ysgol

dd) Arwain a chyfrannu at gwblhau a chynnal adroddiad Hunan Arfarnu y Gyfadran a chynhyrchu tystiolaeth addas i ddod i farn ar safonau cyflawniad a chyrhaeddiad yn y Gyfadran.

e) Sicrhau bod y Gyfadran yn cwrdd â gofynion deddfwriaeth addysg gyfredol.

f) Bod o gymorth i'r Pennaeth wrth ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd i fwydo'r cylchred cynllunio: adolygu, dadansoddi a chymharu perfformiad, gosod targedau, cynllunio i weithredu, a gweithredu, monitro a hunan arfarnu.

ff) Gweithredu fel arweinydd tîm yn rhaglen rheoli perfformiad yr Ysgol.

g) Ymgysylltu yn gadarnhaol gyda datblygiad proffesiynol

ng) Bod yn barod i arfarnu eich perfformiad a bod yn barod i addasu a gwella eich ymarfer yng ngoleuni adborth a datblygiad proffesiynol.

h) Rheoli tasgau sy'n gymesur â'r lefel hon o gyfrifoldeb.

Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, bydd disgwyl i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill rhesymol dan gyfarwyddyd y Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth hyd at lefel sy'n gymesur â phrif ddyletswyddau eich swydd.

**Cyfrifoldebau Penodol**

a) Gweithredu strategaethau i alluogi disgyblion gyrraedd eu potensial yn y maes/meysydd ac i gyrraedd o leiaf gradd dda TGAU a'r lefel cyflawniad ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 3

b) Gweithio gyda'r Arweinyddion Dysgu a Chynnydd a'r SENCO i adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ym meysydd Rhifedd, Llythrennedd, Cymhwysedd Digidol a/neu gynnydd yn y maes/meysydd pynciol a datblygu rhaglenni addas i gwrdd ag anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr a adnabuwyd.

c) Gweithio gydag asiantaethau allanol, yr Awdurdod Lleol ac ysgolion partner i godi safonau Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a sicrhau cynnydd yn y maes / meysydd pynciol.

ch) Gweithio gyda Phenaethiaid Cyfadrannau eraill i sicrhau darpariaeth traws-gwricwlaidd a sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a'r sgiliau ehangach.

d) Arwain Datblygiad Proffesiynol Parhaus a hyfforddiant staff y Gyfadran i adeiladu capasiti ar gyfer datblygu ddatblygu Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a'r sgiliau ehangach ar draws y cwricwlwm.

**Y ddarpariaeth gwricwlaidd bresennol**

Mae Saesneg yn bwnc creiddiol a phwysig yng nghwricwlwm pob disgybl o flwyddyn 7 hyd at 11.

O fewn amserlen bythefnos o 60 gwers, caiff y pynciau craidd ddosbarthiad cyfartal o wersi, sef, saith gwers y pythefnos ar draws cyfnod allweddol 3 ac wyth gwers y pythefnos yng nghyfnod allweddol 4.

Darperir cyrsiau Iaith a Llên ar gyfer TGAU i'r mwyafrif o'r disgyblion. Mae Saesneg yn bwn poblogaidd gyda nifer iach yn astudio hyd at Safon Uwch.

Caiff Ieithoedd Tramor Modern ar gyfartaledd pedair gwers y pythefnos yng nghyfnod allweddol 3. Addysgir Ffrangeg fel pwnc dewisol i TGAU yng nghyfnod allweddol 4. Cynnigir Ffrangeg at safon uwch gyfrannol a safon uwch yn y chweched dosbarth.

Mae gan y gyfadran hon hanes llewyrchus a llwyddiannus iawn. Cyniga'r swydd arbennig hon y sialens i adeiladu ar y sail gref sydd eisoes yn bodoli ac i ddatblygu darpariaeth a dylanwad yr adran i'r dyfodol. Un o brif nodweddion yr adran yw'r cyd-weithio agos ac agored sy'n bodoli rhwng ei holl athrawon.

Disgwylir i'r athro/athrawes newydd gyfrannu at syniadaeth yr ysgol i gwrdd â heriau newydd yn llwyddiannus, hyderus a chyda dychymyg i wireddu gwerthoedd creiddiol yr ysgol a'i dyhead i ddarparu'r addysg orau i'w disgyblion.

**GWNEUD CAIS AM Y SWYDD**

Mae modd gwneud cais am y swydd hon drwy gwblhau'r ffurflen gais electroneg oddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion [https://careers.ceredigion.gov.uk/cy/featured-careers/addysg/](https://careers.ceredigion.gov.uk/cy/featured-careers/addysg/)

- **CYFWELD**
  Bwriedir cynnal y cyfweliad yn ystod yr wythnos yn cychwyn **13 Mai 2024**

Dyddiad cau: **12 Mai 2024**

# Manyleb Person

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Cymwysterau | • Statws cymwysedig fel athro/athrawes<br>• Gradd dda mewn pwnc sy'n berthnasol i'r maes/meysydd cwricwlaidd penodol | |
| Hyfforddiant | • Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | • Profiad o arwain sesiynau hyfforddiant<br>• Mentora neu ddatblygu staff |
| Profiad a Dablygiad Proffesiynol Parhaus | • Tystiolaeth o gyrsiau neu hyfforddiant rheolaeth ganol a chyfraniad rheolaeth ganol at wella safonau ar lefel adran neu faes bugeiliol sylweddol neu brofiad cyfatebol<br>• Athrawes/Athro da/da iawn gyda phrofiad addysgu llwyddiannus 11-18. Tystiolaeth benodol o gyflawniad uchel mewn perthynas â disgwyliadau o gyrhaeddiad disgyblion<br>• Gwybodaeth o faterion yn ymwneud â rheolaeth adran<br>• Yn meddu ar weledigaeth glir o'i gyfraniad/chyfraniad posibl at addysg yn Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig a'r ddawn i wireddu'r weledigaeth | • Wedi cyfrannu at hyfforddi staff ym maes dysgu ac addysgu ar lefel adran/cyfadran<br>• Tystiolaeth benodol o arfer sydd wedi codi a chynnal safonau dysgu ac addysgu athrawon eraill dros gyfnod sylweddol<br>• Profiad o gyfrannu at brosesau arfarnu a chynllunio traws ysgol.<br>• Tystiolaeth o brofiad llwyddiannus o arwain tîm a/neu o flaengaredd yn llwyddiannus ar lefel adran neu rôl fugeiliol sylweddol |
| Sgiliau a rhinweddau personol | • Ymrwymiad i feithrin cefnogaeth i holl ehangder Cymreictod<br>• Tystiolaeth benodol o'r gallu i ysbrydoli a datblygu staff a disgyblion i ymgyrraedd at eu potensial llawn o fewn awyrgylch gyfeillgar a disgybledig<br>• Ymarferydd hunanfeirniadol a threfnus a all arwain cyfadran mewn cynlluniau gwella parhaus<br>• Y gallu i feithrin a chynnal disgwyliadau uchel ymhlith cydweithwyr<br>• Ymrwymiad llwyr i ddatblygu dysgu ac addysgu ac ymgysylltu â gweithgareddau craffu, arsylwi a datblygu safonau ar lefel ysgol, sirol a rhwng ysgolion<br>• Teyrngarwch i'r tîm a;r parodrwydd i fynd yfilltir ychwanegol er mwyn cefnogi a gwella'r Gyfadran a'r ysgol<br>• Sgiliau personol a rhyngbersonol ardderchog.<br>• Y gallu i gyfathrebu ar bob lefel a chyda phob unigolyn sy'n gysylltiedig â'r ysgol<br>• Y gallu i gyfathrebu'n llawn ac yn effeithiol trwy'r Gymraeg a Saesneg | |
| Eraill | • Cofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg<br>• Cydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth<br>• Gwiriad DBS manwl | |

**DIOGELU: DATGANIAD CYNGOR SIR Ceredigion**

**Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Rydym ni a'n sefydliadau addysgiadol yn cydnabod bod plant a phobl ifanc a'r hawl i gael eu hamddiffyn a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn a byddwn yn gofyn am Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sef y CRB gynt.**

# Cefndir cryno o'r ysgol

- Mae Penweddig yn ysgol ddwyieithog benodedig sy'n rhoi pwyslais ar yr iaith Gymraeg a chynnal ethos Gymreig. Credwn fod sefydlu hunaniaeth ddwyieithog gref yn darparu'r sail i ddatblygu ymagwedd agored ac eangfrydig ymhlith y disgyblion.
- Mae 598 disgybl yn yr ysgol.
- Mae o leiaf 17 ysgol gynradd yn bwydo'r ysgol.
- Mae ychydig dros hanner o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gartrefi lle siaredir dim neu ond ychydig o Gymraeg.
- Mae proffil ieithyddol corff y rhieni yn adlewyrchu proffil ieithyddol y plant.
- Mae'r canran o giniawau rhad yn isel.
- Polisi Iaith a chwricwlwm yr ysgol:
    - Addysgir ac asesir y cwricwlwm Saesneg yn Saesneg
    - Addysgir Mathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ers Medi 2022, addysgir y disgyblion sydd yn trosglwyddo yn unol â chyfrwng y ddarpariaeth y neu hysgolion cynradd.
    - Addysgir ac asesir pob pwnc arall trwy gyfrwng y Gymraeg
- Dychwela tua 60 – 65% o ddisgyblion i'r chweched dosbarth.
    - Mae canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol yn dda ac yn gyson gyda'r gorau o fewn Ceredigion, ac yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg y tu allan i'r sir.
    - Mae gan yr ysgol draddodiad o lwyddiant academaidd ardderchog.
- Ymrwyma'r ysgol i ddarparu addysg gyflawn ar gyfer ei disgyblion. Gwêl yr ysgol berthynas gref rhwng astudiaethau academaidd a rhaglen gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol.
- Medda'r ysgol ar draddodiad balch a nodedig mewn sawl maes gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, chwaraeon, y meysydd creadigol, gwaith gwirfoddol a dyngarol.
- Mae lleoliad yr ysgol ac adnoddau'r gymuned leol yn cyfrannu yn sylweddol iawn at yr hyn all gael ei gynnig yn allgyrsiol e.e. dosbarthiadau meistr (Prifysgol); Gweithdai a Pherffomriadau (Canolfan y Celfyddydau)
- Ysgol lwyddiannus yw Penweddig sy'n tyfu ac yn datblygu. Mae'r cyfleusterau modern yn gymorth i alluogi'r disgyblion brofi llwyddiant yn y meysydd academaidd, chwaraeon a diwylliannol yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.


# Gwybodaeth am Geredigion ac Aberystwyth



**CEREDIGION**

Sir arfordirol yng ngorllewin Cymru yw Ceredigion, sydd â phoblogaeth o tua 71,500 (2021). Mae iddi dirwedd odidog sy'n ymestyn o Fynyddoedd y Cambrian i'r arfordir ysblennydd ym Mae Ceredigion. Mae ei threfi sirol a'i phentrefi cefn gwlad yn frith o ddiwylliant a hanes.

Mae economi'r sir yn bennaf ddibynnol ar amaethyddiaeth, twristiaeth a bwyd, ond ceir hefyd sectorau arwyddocaol eraill megis addysg uwch, gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu.



**ABERYSTWYTH**

Aberystwyth yw tref fwyaf Ceredigion. Tref hanesyddol ydyw, a ddaeth yn gyrchfan glan-môr yn oes Fictoria. Mae'n gartref i Brifysgol (un o golegau sylfaenol Prifysgol Cymru), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r dref wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru a'r iaith Gymraeg. Yma yn Aberystwyth, bron i 80 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru, ac yma hefyd yn 1963 cynhaliwyd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – protest Pont Trefechan.



Mae nifer o leoliadau i fwynhau perfformiadau theatr, ffilm, cerddoriaeth a chelfyddyd weledol, yn ogystal â chwaraeon. Mae amrywiaeth o siopau annibynnol a llefydd bwyta. Mae marchnad ffermwyr Aberystwyth wedi ei chydnabod fel un o'r goreuon ym Mhrydain.

Yn lleol ceir nifer o lwybrau beicio â chanolfannau gweithgareddau awyr agored, fel Nant yr Arian.

Gyda phoblogaeth o tua 13,000, mae Aberystwyth yn le braf i fyw, astudio, gweithio ac i fagu teulu.

